BWRDD DIOGELU RHANBARTHOL CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU

# CYLCHLYTHYR

RHIFYN 5, Hydref 2024

## NEGES GAN REOLWR Y BWRDD



Croeso i rifyn Hydref 2024 o Gylchlythyr Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru!

Rydym yn falch o rannu gwybodaeth am ddiogelu â chi a gweithgarwch diogelu sydd wedi digwydd yn rhanbarthol ac yn genedlaethol ers ein rhifyn diwethaf, yn ogystal â digwyddiadau sydd i ddod yr hydref hwn. Mae'r rhifyn hwn hefyd yn tynnu sylw at newyddion a diweddariadau ar feysydd pwysig o bolisi, ymarfer a hyfforddiant diogelu, yn ogystal â newyddion ac arferion da gan dimau a gwasanaethau ein hasiantaethau partner ar draws y rhanbarth.

Rydym bob amser yn awyddus i hyrwyddo straeon ac enghreifftiau o'r gwaith rhagorol sy'n digwydd ar draws y rhanbarth, felly parhewch i anfon unrhyw newyddion neu wybodaeth yr hoffech i ni eu hamlygu i **cysur@pembrokeshire.gov.uk**

Julie Breckon, Rheolwr Diogelu Rhanbarthol Strategol ar gyfer Plant ac Oedolion mewn Perygl

## YN Y RHIFYN HWN


**RHANBARTHOL**

- ⇒ Mae ein Hadroddiad Blynyddol 2023 - 2024 nawr yn fyw!
- ⇒ Wythnos Genedlaethol Diogelu 2024
- ⇒ Rydym yn recriwtio: Cynrychiolydd defnyddwyr gwasanaeth
- ⇒ Adolygiadau Ymarfer ar gyfer Plant ac Oedolion Newydd eu Cyhoeddi
- ⇒ Digwyddiadau Recriwtio Mwy Diogel
- ⇒ Calan DVS yn rhannu Adroddiad Effaith 2023 -2024

**CENEDLAETHOL**

- ⇒ Datblygu'r Gallu i Wrthsefyll Meithrin Perthynas Amhriodol Ar-lein neu DRAGON (Developing Resistance Against Grooming Online) - Platfform Amlgyfrwng Rhyngweithiol i hyfforddi gweithwyr proffesiynol
- ⇒ Mae Buttle UK yn Cynnig Grantiau o Hyd at £2,400 i Blant a Phobl Ifanc

**CENEDLAETHOL**

- ⇒ SafeCall: Cefnogaeth Gyfrinachol i Bobl Ifanc a Theuluoedd
- ⇒ Dioddefwyr Hŷn Cam-drin Economaidd - Hyfforddiant Am Ddim
- ⇒ Sefydliad Lucy Faithfull: Diweddariadau ac Adnoddau i Bartneriaid
- ⇒ Gwahoddiad i Ddigwyddiad LOUDfence yn Abertawe
- ⇒ Proses PRUDiC (Ymateb Gweithdrefnol i Farwolaethau Annisgwyl yn ystod Plentyndod): Gwybodaeth i Deuluoedd
- ⇒ Cynhadledd Caethwasiaeth Fodern Llywodraeth Cymru
- ⇒ Rhaglen Ddysgu Camfanteisio ar Blant

## MAE EIN HADRODDIAD BLYNYDDOL 2023 - 2024 NAWR YN FYW!

Mae’n bleser gennym gyhoeddi ein hadroddiad blynyddol mewn perthynas â chyflawniadau a chynnydd yn ystod y flwyddyn 2023-2024. Mae’r adroddiad yn arddangos arferion diogelu rhagorol o bob rhan o’n rhanbarth, mewn perthynas â’n hasiantaethau partner a Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru fel partneriaeth amlasiantaeth.

Mae ein hadroddiad blynyddol yn amlinellu’r cynnydd rydym wedi’i wneud yn erbyn y canlyniadau a osodwyd gan CYSUR a CWMPAS fel rhan o’n Cynllun Strategol Blynyddol ar y cyd ar gyfer y flwyddyn 2023-24.

Mae'r adroddiad llawn i'w weld ar ein gwefan yn Adroddiadau Blynyddol CYSUR.




## DATBLYGU’R GALLU I WRTHSEFYLL MEITHRIN PERTHYNAS AMHRIODOL AR-LEIN - PLATFFORM AMLGYFRWNG RHYNGWEITHIOL I HYFFORDDI GWEITHWYR PROFFESIYNOL

Mae’n bleser gan bartneriaeth SAFE sydd wedi’i lleoli ym Mhrifysgol Abertawe, gynnig cyfle i ymarferwyr ddysgu am DRAGON-Shield, platfform amlgyfrwng, rhyngweithiol sy’n darparu hyfforddiant ar y ffyrdd y mae’r rhai sy’n meithrin perthnasau amhriodol â phlant yn cyfathrebu â phlant yn ystod sgyrsiau meithrin perthynas amhriodol ar-lein.

Bydd y gweminar ar-lein sy’n rhad ac am ddim yn cael ei hwyluso gan yr Athro Nuria Lorenzo-Dus a Ruth Mullineux-Morgan.

Dyddiad: 17 Hydref 2024

Amser: 9.30am - 11am

Lleoliad:  Ar-lein

Mae gwybodaeth bellach ar gael yn:DRAGON-Shield - Prifysgol Abertawe Cliciwch ar y ddolen hon i archebu lle.



# WYTHNOS GENEDLAETHOL DIOGELU 2024




Eleni cynhelir Wythnos Genedlaethol Diogelu rhwng 11 a 18 Tachwedd 2024.

Y thema ar gyfer ein rhanbarth yw 'Cymorth cywir ar yr adeg cywir' a byddwn yn cynnal cyfres o ddigwyddiadau sy'n canolbwyntio ar rannu meysydd gwella ymarfer sy'n cwmpasu'r pwnc hwn. Bydd nifer o weminarau ar-lein yn cael eu cynnal, yn ogystal â digwyddiadau lleol ar draws y rhanbarth. Ddydd Iau, 14 Tachwedd, cynhelir cynhadledd ddiogelu ranbarthol gan Gyngor Sir Ceredigion ar y thema Adferiad ar ôl Trawma.

Mae gennym raglen gyffrous o ddigwyddiadau ar gyfer yr wythnos, sy'n ymdrin ag ystod o bynciau o adolygiadau thematig i ddiogelu pobl ifanc trawsryweddol rhag camfanteisio arnynt. Bydd Cymdeithas y Plant, SHINE, Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gorllewin Cymru, Y Sefydliad Gofal Cyhoeddus a llawer o gyfranwyr eraill yn cymryd rhan yn y digwyddiad.

Byddwn yn dosbarthu'r rhaglen yn fuan ac yn cymryd archebion ar gyfer digwyddiadau unigol felly cadwch olwg ar ein gwefan am fanylion!Yn y cyfamser, os oes gennych unrhyw gwestiynau, e-bostiwch cysur@pembrokeshire.gov.uk

# RYDYM YN RECRIWTIO - CYNRYCHIOLYDD DEFNYDDWYR GWASANAETH

A ydych chi'n oedolyn sydd â phrofiad byw o wasanaethau diogelu, yn byw yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro neu Bowys a all gynnig persbectif gwybodus ar ansawdd a darpariaeth gwasanaethau diogelu yn rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru?

Mae Bwrdd Diogelu Oedolion Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru (CWMPAS) am recriwtio cynrychiolydd defnyddwyr gwasanaeth i fod yn aelod o'i fwrdd gweithredol rhanbarthol diogelu oedolion. Ymarfer peilot dros gyfnod penodol o flwyddyn fydd hwn. Bydd eich rôl yn sicrhau bod persbectif a llais oedolion mewn perygl yn cael eu cynrychioli a'u hystyried ym musnes y bwrdd a bod eich profiad byw yn llywio amcanion a chynlluniau strategol.

Bydd eich rôl a'ch cyfrifoldebau yn cynnwys y canlynol:

- Bod yn bresennol mewn tua phedwar cyfarfod bwrdd diogelu rhanbarthol y flwyddyn (gellir trefnu presenoldeb rhithwir).
- Bod yn bresennol mewn cyfarfodydd rhanbarthol perthnasol eraill fel y bo'n briodol ac fel y cytunwyd rhyngoch chi a'r cadeirydd.
- Paratoi'n ddigonol ar gyfer cyfarfodydd y bwrdd diogelu rhanbarthol trwy ddarllen papurau ac agenda'r bwrdd cyn y cyfarfod.
- Sicrhau cyfrinachedd papurau agenda, y trafodaethau a'r penderfyniadau a wneir.
- Darparu persbectif defnyddiwr gwasanaeth i fusnes y bwrdd diogelu rhanbarthol.
- Cyfrannu at ddatblygu cynlluniau a chynigion, gan ddarparu mewnbwn adeiladol o safbwynt defnyddiwr gwasanaeth.
- Bod yn ddolen gyswllt rhwng y bwrdd diogelu rhanbarthol a defnyddwyr gwasanaeth eraill lle bo'n briodol.

Byddwch yn adrodd i gadeirydd y bwrdd diogelu rhanbarthol ac yn cael cymorth uniongyrchol gan y rheolwr diogelu rhanbarthol strategol ar gyfer plant ac oedolion mewn perygl. Gellir hawlio ad-daliad llawn ar gyfer treuliau rhesymol.

I drefnu trafodaeth anffurfiol gyda'r rheolwr diogelu rhanbarthol neu i ofyn am becyn gwybodaeth, anfonwch e-bost i CWMPAS@Pembrokeshire.gov.uk neu ffoniwch 01437775200. Gwahoddir ceisiadau ar ffurf llythyr eglurhaol at Gadeiryddion Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru, Michael Gray a Jake Morgan. Sicrhewch fod hyn yn cynnwys yr hyn a wnaeth eich cymell i wneud cais, eich profiad byw fel defnyddiwr gwasanaethau diogelu, a sut y teimlwch y gallwch chi gyfrannu at y bwrdd diogelu rhanbarthol a'i ddatblygiad ac ymateb i oedolion mewn perygl yng nghanolbarth a gorllewin Cymru.

Bydd y rôl yn gofyn am wiriad sylfaenol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

# MAE BUTTLE UK YN CYNNIG GRANTIAU O HYD AT £2,400 I BLANT A PHOBL IFANC YNG NGHYMRU



Mae Buttle UK yn dyfarnu grantiau o hyd at £2,400 i gefnogi plant a phobl ifanc yng Nghymru sy'n wynebu heriau sylweddol. Mae'r grantiau hyn wedi'u cynllunio i gynorthwyo'r rhai sydd:

- Wedi profi argyfwng yn ddiweddar
- Yn cael trafferth ymgysylltu ag addysg a llesiant
- Yn byw ar incwm isel ac yn wynebu caledi ariannol

Mae'r grantiau *Cyfleoedd i Blant* yn darparu pecynnau cymorth wedi'u teilwra'n unigol sy'n mynd i'r afael ag anghenion addysgol a llesiant y plentyn neu'r unigolyn ifanc.

I gael rhagor o wybodaeth am feini prawf grant *Cyfleoedd i Blant* a sut i wneud cais, ewch i'w gwefan yma, neu i ofyn am arweiniad ynglŷn â chais, e-bostiwch Swyddog Datblygu Grant Buttle UK yng Nghymru, Kate Zaczek yn katez@buttleuk.org

Os ydych yn gwneud cais am y tro cyntaf, argymhellir cysylltu â Buttle UK i drafod yr achos cyn cyflwyno cais. Eu nod yw cadw'r broses yn gyflym ac ymateb yn gyflym, a darparu canlyniadau'r cais fel arfer o fewn pum diwrnod gwaith.

# ADOLYGIADAU YMARFER PLANT AC OEDOLION WEDI'U CYHOEDDI



Prif ddiben adolygiadau ymarfer yw nodi unrhyw gamau y gall partneriaid y bwrdd diogelu eu cymryd i gyflawni gwelliannau mewn arfer amlasiantaeth. Mae'r rhain yn cynnwys gwersi a ddysgwyd y dylid eu lledaenu, ac unrhyw argymhelliad sy'n codi y dylid ei weithredu fel bod y newidiadau sydd eu hangen yn arwain at amddiffyn plant rhag dioddefaint neu niwed yn y dyfodol.


Mae copïau o adolygiadau ymarfer a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gael ar dudalennau Adolygiadau Ymarfer Plant ac Oedolion ein gwefan.

**CYSUR 1 2021 Adolygiad Ymarfer Plant Cryno**

◊ Adroddiad wedi ei gyhoeddi

◊ Briff saith munud

# SAFECALL: CEFNOGAETH GYFRINACHOL I BOBL IFANC A THEULUOEDD




Mae SafeCall yn llinell gymorth a gwasanaeth cymorth cyfrinachol, dienw am ddim sy'n ymroddedig i gynorthwyo pobl ifanc ac aelodau o'r teulu y mae materion megis pobl ar goll, llinellau cyffuriau, a chamfanteisio troseddol yn effeithio arnynt. Mae'r gwasanaeth ar gael dros y ffôn, drwy neges destun, neu sgwrs ar-lein rhwng 9am ac 11pm, saith diwrnod yr wythnos. I gysylltu â SafeCall, gall unigolion ffonio neu anfon neges destun at 116000.

**Hyfforddiant ac Adnoddau**

Mae SafeCall hefyd yn cynnig hyfforddiant a chymorth i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda'r rhai y mae'r materion hyn yn effeithio arnynt ac mae'r Swyddfa Gartref wedi datblygu nifer o adnoddau i helpu i hyrwyddo gwasanaethau SafeCall. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- **Posteri:** yn amlinellu'r cymorth sydd ar gael i bobl ifanc, teuluoedd a gweithwyr proffesiynol.
- **Cardiau Busnes:** Wedi'u cynllunio i bobl ifanc gael mynediad hawdd at gymorth.

I gael rhagor o wybodaeth ac i lawrlwytho'r posteri, ewch i Adnoddau SafeCall.

Mae'r Swyddfa Gartref yn ariannu gwasanaeth SafeCall Missing People tan fis Mawrth 2025.

# DIODDEFWYR HŶN CAM-DRIN ECONOMAIDD - HYFFORDDIANT AM DDIM

Mae Hourglass yn cynnig adnoddau a chefnogaeth i ddioddefwyr hŷn cam-drin ariannol. Mae'r bartneriaeth ranbarthol Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig, a Thrais Rhywiol yn cydweithio â nhw i ddarparu hyfforddiant ar fynd i'r afael â cham-drin economaidd y mae dioddefwyr hŷn yn ei wynebu. Nod yr hyfforddiant hwn yw mynd i'r afael â'r rhwystrau penodol y mae unigolion hŷn yn eu hwynebu a gwella cymorth ar draws y rhanbarth.

Mae'r prosiect hefyd yn datblygu model ymateb cymunedol yng Nghymru i gefnogi unigolion hŷn sy'n ddioddefwyr cam-drin ariannol. Y nod yw:

- Lleihau nifer y dioddefwyr a'r rhai sydd mewn perygl o ddioddef yn y dyfodol trwy godi ymwybyddiaeth a gwaith atal.
- Datblygu llwybrau atgyfeirio i sefydliadau ac asiantaethau perthnasol ac oddi wrthynt.
- Gwella annibyniaeth, hyder a gwybodaeth pobl hŷn am ddiogelu eu harian.



**Sesiynau Hyfforddi**

Bydd pedair sesiwn hyfforddi yn cael eu cyflwyno yng nghanolbarth a gorllewin Cymru, gyda'r sesiwn gyntaf wedi'i threfnu ar gyfer 27 Tachwedd trwy gyfrwng Teams.Gwahoddir datganiadau o ddiddordeb drwy e-bost at Natalie Hancock yn **nhancock@carmarthenshire.gov.uk**

I gael rhagor o wybodaeth am wasanaethau ac adnoddau Hourglass, ewch i'w tudalen taflenni a phosteri.

# DIGWYDDIADAU RECRIWTIO MWY DIOGEL CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU

Yr haf hwn, bu’r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA), Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru a Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Sir Gaerfyrddin/Ceredigion (CAVO) yn cydweithio i gyflwyno cyfres o ddigwyddiadau ar draws y rhanbarth i helpu i gefnogi sefydliadau i ddarparu arferion diogelu diogel ac effeithiol.

Cefnogwyd a chyflwynwyd digwyddiadau gan uwch staff o’r Gwasanaeth DBS, WCVA, Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru, ochr yn ochr ag arweinwyr dysgu a datblygu o adrannau hyfforddi awdurdodau lleol.



Roedd diwrnodau hyfforddi yn cynnwys tri gweithdy yn canolbwyntio ar y canlynol:

* **Arferion da mewn perthynas â Pholisïau a Gweithdrefnau Diogelu** - Roedd y rhain yn gyfle i ystyried eich polisïau diogelu eich hun, adolygu adnoddau presennol ac ystyried prosesau sefydliadol sy’n ymwneud â’ch cyfrifoldeb DBS.

* **Recriwtio Diogel a’r DBS (Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd)** - Yn cynnig trosolwg o sut y gall y DBS a’ch sefydliad gydweithio’n effeithiol ar gyfer recriwtio mwy diogel, a lle gallai fod gennych ddyletswydd gyfreithiol i gyfeirio at y DBS.

* **Safon Hyfforddiant y Safonau Diogelu Cenedlaethol** - Roedd y sesiynau hyn yn cefnogi gofynion hyfforddi gofynnol gorfodol yn unol â'r safonau hyfforddiant a datblygu diogelu cenedlaethol.



Mae digwyddiadau bellach wedi’u cyflwyno ar draws y pedwar rhanbarth yng nghanolbarth a gorllewin Cymru, gyda sesiwn gweithgaredd i gloi yn cael ei chynnal ar-lein i’r rhai na allant fod yn bresennol yn bersonol.

Roedd presenoldeb yn gadarnhaol iawn, a thua 75% o gyfranogwyr o'r sector gwirfoddol a 25% o'r sector statudol. Bydd gwerthusiad llawn o'r rhaglen yn dilyn, gyda'r nod o asesu sut mae arferion recriwtio mwy diogel yn cael eu gweithredu ar draws y rhanbarth.





# SEFYDLIAD LUCY FAITHFUL: DIWEDDARIADAU AC ADNODDAU I BARTNERIAID

Mae'n bleser gan Sefydliad Lucy Faithfull rannu eu pecyn *Gwybodaeth i Bartneriaid* diweddaraf, sydd wedi'i gynllunio i roi'r cymorth a'r cyngor sydd eu hangen ar oedolion ar atal cam-drin plant yn rhywiol. Mae'r pecyn cynhwysfawr hwn yn cynnwys adnoddau gwerthfawr ar gyfer gweithwyr proffesiynol, rhieni, a gofalwyr, ynghyd â gwybodaeth fanwl am y gwasanaethau a gynigir gan y sefydliad. I lawrlwytho'r pecyn *Gwybodaeth i Bartneriaid* yn y Gymraeg a'r Saesneg, ewch i'w gwefan yma.

**Dyddiadau Newydd: Sesiynau Hyfforddi'r Hyfforddwr**

Mae'r sefydliad yn parhau i gyflwyno sesiynau *Hyfforddi'r Hyfforddwr* ar gyfer gweithwyr proffesiynol sydd mewn rolau sy'n cynnwys gwaith ataliol gyda rhieni. Mae hwn yn gyfle gwych ar gyfer datblygiad proffesiynol, ac maent yn arbennig yn annog ymarferwyr sy'n gweithio gyda grwpiau ymylol ledled Cymru i gymryd rhan.

Y dyddiadau ar gyfer y digwyddiad nesaf yw 6 a 7 Tachwedd 2024 (y ddau ddiwrnod) Am ragor o wybodaeth neu i fynegi diddordeb, e-bostiwch wales@lucyfaithfull.org.uk.

**Yn Dod yn Fuan yng Nghymru**

Bydd Sefydliad Lucy Faithfull yn rhyddhau *Faithfull Paper* newydd yn fuan yn amlygu sut y gall dull iechyd cyhoeddus helpu i atal cam-drin plant yn rhywiol yng Nghymru. Bydd y papur yn canolbwyntio ar bwysigrwydd cydweithio traws-sector, yn cynnig awgrymiadau ymarferol, ac yn trafod heriau o ran diogelu plant wrth weithio gyda theuluoedd a gweithwyr proffesiynol.

Yn ogystal, mae'r sefydliad yn dod â'i sesiynau hyfforddi amlasiantaeth poblogaidd ar gyfer ymarferwyr a ariennir gan Lywodraeth Cymru yn ôl. Cadwch olwg am ragor o fanylion am y digwyddiadau hyn sydd i ddod.

I gael unrhyw wybodaeth ychwanegol am waith Sefydliad Lucy Faithfull yng Nghymru, e-bostiwch wales@lucyfaithfull.org.uk.

# CALAN DVS YN RHANNU ADRODDIAD EFFAITH 2023-2024

Mae Calan DVS, un o'r elusennau cam-drin domestig mwyaf yng Nghymru, wedi rhyddhau ei Adroddiad Effaith 2023-2024, sy'n tynnu sylw at y cynnydd a wnaed o ran cefnogi dioddefwyr a goroeswyr cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Wrth gyflwyno'r adroddiad, rhannodd **Michelle Whelan**, Prif Weithredwr Calan DVS, ei myfyrdodau fel a ganlyn:

*"Mae'n bleser mawr gennyf rannu ein hadroddiad effaith 2023-2024. Wrth inni fyfyrio ar y flwyddyn ddiwethaf, rwy'n llawn ymdeimlad dwys o ddiolchgarwch a gobaith. Mae gwydnwch, ymroddiad, a chefnogaeth ddiwyro ein cymunedau wedi gadael eu hôl ar ein taith. Mae'r adroddiad hwn yn deyrnged i'r rhai yr ydym wedi'u cefnogi, yr heriau yr ydym wedi'u goresgyn, a'r cynnydd yr ydym wedi'i wneud yn ein cenhadaeth i gefnogi a grymuso holl ddioddefwyr/goroeswyr cam-drin domestig a thrais rhywiol.*

*Rwy'n hynod ddiolchgar i'n holl staff yn Calan am eu hymroddiad diwyro a'r tosturi y maent yn ei ddangos bob dydd yn eu cefnogaeth i ddioddefwyr cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae eu hymrwymiad i genhadaeth Calan a'r ymdrech ddiflino a wnaethpwyd ganddynt i'w gwaith wedi gwneud gwahaniaeth anfesuradwy i fywydau unigolion a theuluoedd di-rif.*




*Wrth i ni gyflwyno'r adroddiad effaith hwn, rydym yn cydnabod gwytnwch a chryfder y goroeswyr, ymroddiad darparwyr gwasanaethau, a phwysigrwydd ymateb cydweithredol sy'n cael ei yrru gan y gymuned."*

Gallwch ddarllen yr adroddiad effaith llawn ar YouTube yn https://www.youtube.com/watch?v=ERVBj5eWa-w

# GWAHODDIAD I DDIGWYDDIAD LOUDFENCE YN ABERTAWE



Mae **LOUDfence** yn fenter sy’n cael ei harwain gan oroeswyr sy’n darparu platfform i’r rhai sydd wedi profi cam-drin mewn lleoliadau ffydd neu sydd wedi cael eu heffeithio ganddo. Mae’n agored i bawb, a’i nod yw codi ymwybyddiaeth gymunedol a sefydliadol, herio’r distawrwydd a’r cywilydd sy’n gysylltiedig â cham-drin, a chefnogi goroeswyr trwy ddilysu eu profiadau a dathlu’r weithred o godi llais.

Mae’r Archesgob Mark O’Toole ac Adrannau Diogelu Archesgobaeth Catholig Caerdydd a Mynyw yn eich gwahodd i ymuno â’u digwyddiad LOUDfence nesaf yn Abertawe. Nod y digwyddiad hwn yw codi ymwybyddiaeth o gam-drin, cydnabod y niwed y mae’n ei achosi i unigolion, teuluoedd, a chymunedau, a rhoi cyfle i bobl o bob ffydd ac heb unrhyw ffydd ddod at ei gilydd mewn undod a chefnogi’r rhai y mae cam-drin yn effeithio arnynt.

**Manylion y digwyddiad**

⇒ **Dyddiad:** Dydd Sadwrn, 19 Hydref

⇒ **Amser:** Hanner dydd

⇒ **Lleoliad:** Priordy Catholig Dewi Sant, Maes Dewi Sant, Abertawe

Bydd y digwyddiad yn dechrau gydag offeren a ddathlir gan yr Archesgob Mark yn Eglwys Dewi Sant. Yn dilyn y gwasanaeth, bydd lluniaeth ysgafn ar gael yn neuadd yr eglwys, gan roi cyfle i rwydweithio cymunedol a chymorth. I'r rhai a allai deimlo'n anghyfforddus yn y gadeirlan, bydd ystafell niwtral heb addurn eglwysig ar gael.

**Beth sy'n Digwydd mewn Digwyddiad LOUDfence?**

Mae digwyddiadau LOUDfence yn canolbwyntio ar glymu rhubanau lliw llachar a negeseuon o gefnogaeth mewn mannau cyhoeddus, fel rheiliau a ffensys, i ddangos undod â holl ddioddefwyr a goroeswyr cam-drin. Mae croeso i gyfranogwyr glymu rhubanau a negeseuon o gefnogaeth ar ddiwrnod y digwyddiad neu yn ystod yr wythnos ganlynol, naill ai i’r rheiliau neu i’r goeden LOUDfence benodol y tu mewn i’r eglwys.

Yn ystod y digwyddiad yn Abertawe, bydd aelodau o’r tîm diogelu, clerigwyr a lleygwyr ar gael i gynnig cymorth, arweiniad, a chlust i wrando i oroeswyr ac unrhyw un sydd â phryderon am gam-drin mewn unrhyw gyd-destun.

I gael rhagor o wybodaeth, anfonwch e-bost i safeguarding@rcadc.org

# PROSES PRUDIC (YMATEB GWEITHDREFNOL I FARWOLAETHAU ANNISGWYL YN YSTOD PLENTYNDOD): GWYBODAETH I DEULUOEDD

Mae marwolaeth annisgwyl plentyn yn drasiedi ddofn i'r teulu a'r gymuned ehangach. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, mae'n hanfodol bod pob marwolaeth o'r fath yn cael ei hadolygu'n ofalus er mwyn atal trasiedïau yn y dyfodol a chefnogi'r teulu, gofalwyr a ffrindiau mewn profedigaeth.

**Beth yw PRUDiC?**

PRUDiC, neu Ymateb Gweithdrefnol i Farwolaeth Annisgwyl yn ystod Plentyndod, yw'r broses sy'n amlinellu sut y dylai gweithwyr proffesiynol yng Nghymru ymateb i farwolaeth annisgwyl plentyn. Mae'r broses hon yn sicrhau bod yr ymateb yn ddiogel, yn gyson, ac yn sensitif i anghenion y teulu sy'n galaru.


Mae cyfres o daflenni wedi'u creu i roi gwybodaeth glir am y broses PRUDiC i rieni a gweithwyr proffesiynol perthnasol. Datblygwyd y taflenni hyn gan y Gwasanaeth Diogelu Cenedlaethol ar ran Rhwydwaith Diogelu GIG Cymru. Gan gydnabod yr angen am gyfathrebu clir, datblygwyd y taflenni trwy ymgynghori â rhieni sydd â phrofiad bywyd, yn ogystal â chynrychiolwyr o faes iechyd ac addysg.




Cynhyrchwyd dwy daflen: un ar gyfer rhieni a gofalwyr, ac un arall ar gyfer gweithwyr proffesiynol. Nod y taflenni hyn yw esbonio'r broses PRUDiC yn glir ac yn dosturiol i'r rhai yr effeithir arnynt gan farwolaeth annisgwyl plentyn.

Mae'r taflenni ar gael i'w lawrlwytho o'r dolenni canlynol:

- Taflen Gwybodaeth i Deuluoedd PRUDiC (Saesneg)
- Taflen Gwybodaeth i Deuluoedd PRUDiC (Cymraeg)
- Taflen Gwybodaeth i Weithwyr Proffesiynol PRUDiC (Saesneg)
- Taflen Gwybodaeth i Weithwyr Proffesiynol PRUDiC (Cymraeg)




# CYNHADLEDD CAETHWASIAETH FODERN LLYWODRAETH CYMRU

Mae llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn bwriadu cynnal cynhadledd caethwasiaeth fodern ym Mhrifysgol Aberystwyth ac ar-lein ddydd Mercher, 16 Hydref rhwng 10.30am a 3.30pm

Yn yr un modd â chynhadledd y llynedd, bydd Atal Caethwasiaeth Cymru 2024 yn canolbwyntio ar bedwar maes thematig Atal Caethwasiaeth Cymru:

- Dioddefwyr a Goroeswyr
- Atal
- Hyfforddiant ac Ymwybyddiaeth
- Cadwyni Cyflenwi a Rhyngwladol

Hoffent wahodd y canlynol:

- Gwirfoddolwyr ar gyfer gweithgor a fydd yn trefnu'r gynhadledd - maent yn croesawu datganiadau o ddiddordeb o bob sector a chefndir.
- Syniadau ar gyfer pynciau, sesiynau a siaradwyr i'w cynnwys yn y gynhadledd. Maent yn croesawu'n arbennig awgrymiadau ar gyfer siaradwyr a phynciau sy'n gysylltiedig â gorllewin Cymru.
- Awgrymiadau ar gyfer rhwydweithiau a llwyfannau posibl y gallent eu defnyddio i godi ymwybyddiaeth am y digwyddiad hwn.

Os hoffech gyfrannu neu ddysgu mwy, cysylltwch â: Joshua.Vuglar@gov.wales

# RHAGLEN DDYSGU CAMFANTEISIO AR BLANT

Mae’n bleser gan Gymdeithas y Plant wahodd gweithwyr proffesiynol i ymuno â’u rhaglen ddysgu #EdrychYnAgosach #LookCloser ddiweddaraf, sy’n canolbwyntio ar fynd i’r afael â chamfanteisio a cham-drin plant. Mae pob sesiwn yn rhad ac am ddim a byddant yn cael eu cyflwyno trwy gyfrwng Microsoft Teams yn fyw.

Mae’r digwyddiadau dysgu wedi’u hanelu at uwchsgilio gweithwyr proffesiynol, gan gynnig pwyntiau myfyrio allweddol i’w defnyddio’n ymarferol a’u rhannu â thimau a rhwydweithiau ehangach. Maent wedi'u creu i ymgysylltu ag ystod eang o weithwyr proffesiynol, o sectorau amrywiol a lefelau profiad. Mae’r amserlen isod yn cynnwys dolenni i bob digwyddiad dysgu ar Eventbrite, lle gall unigolion gofrestru ar gyfer cynifer o sesiynau ag y dymunant.

Am unrhyw gwestiynau am y digwyddiadau dysgu, cysylltwch â prevention@childrenssociety.org.uk.

| Dyddiad | Sesiwn | Amser |
|---|---|---|
| Dydd Iau, 17 Hydref 2024 | Arfer gwrth-hiliol i fynd i'r afael â chamfanteisio ar blant; pam mae ymarfer gwrth-hiliol yn hanfodol yn ein brwydr yn erbyn cam-drin plant a chamfanteisio | 1pm - 3pm |
| Dydd Mercher, 20 Tachwedd 2024 | Diogelu pobl ifanc trawsryweddol rhag camfanteisio arnynt | 10am – 12pm |
| Dydd Mawrth, 10 Rhagfyr 2024 | Diogelu pobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal rhag camfanteisio arnynt | 1pm – 3pm |
| Dydd Mercher, 29 Ionawr 2025 | Camfanteisio ariannol | 10am – 12pm |
| Dydd Mawrth, 11 Chwefror 2025 | Bywydau digidol plant a phobl ifanc | 1pm – 3pm |
| Dydd Mawrth, 18 Mawrth 2025 | Goresgyn tybiaethau rhyw: mynd i'r afael â chamfanteisio ar bobl ifanc o bob rhyw | 10am – 12pm |



# DYDDIAU YMWYBYDDIAETH SYDD AR DDOD

Dyma ddyddiadau diwrnod ymwybyddiaeth sydd ar ddod ar gyfer eich dyddiaduron. Cofiwch ein dilyn ar gyfryngau cymdeithasol am ddolenni ac adnoddau sy'n cefnogi pob un o'r dyddiau hyn .

## Hydref

| | |
|---|---|
| 10 Hydref | Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd |
| 11 Hydref | Diwrnod Rhyngwladol y Ferch |

## Tachwedd

| | |
|---|---|
| 2 Tachwedd | Diwrnod cefnogi dioddefwyr gwrywaidd cam-drin domestig |
| 11 i 17 Tachwedd | Wythnos Genedlaethol Diogelu |
| 19 Tachwedd | Diwrnod Rhyngwladol Dynion |
| 20 Tachwedd | Diwrnod Byd-eang y Plant |
| 25 Tachwedd i 10 Rhagfyr | 16 Diwrnod o Weithredu |
| 25 Tachwedd | Diwrnod Rhuban Gwyn |

## Rhagfyr

| | |
|---|---|
| 5 Rhagfyr | Diwrnod Rhyngwladol Gwirfoddolwyr |
| 10 Rhagfyr | Diwrnod Hawliau Dynol y Byd |

## EIN CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

**FACEBOOK**

@CYSURCYMRU

**INSTAGRAM**

@CYSURCYMRU

**TWITTER**

@CYSURCYMRU

@CWMPASCYMRU

## CYSYLLTWCH Â NI

**E-bost:**

**cysur@pembrokeshire.gov.uk ar gyfer CYSUR**
**cwmpas@pembrokeshire.gov.uk ar gyfer CWMPAS**

Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru • Mid and West Wales Safeguarding Board